**Cofnodion Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 9 Chwefror 2022**
**11:30-13:00**
**MS Teams**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**
Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Y Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd)
Y Cyng. Carol Clement-Williams (Castell-nedd Port Talbot)
Y Cyng. Aled Davies (Powys)
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**
Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Prif Swyddog Cyllid, Torfaen
Leah Whitty – Swyddog Polisi Cyllid CLlLC

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Matt Wellington – Cyllideb a Busnes y Llywodraeth

**YMDDIHEURIADAU**
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu'r Argyfwng COVID

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod, gan nodi'r ymddiheuriadau.

**Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Diweddariad gan y Gweinidog**

3. Croesawodd y Gweinidog yr adborth cadarnhaol a gafwyd ar y setliad dros dro, ac roedd yn gobeithio y byddai'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau lleol a chenedlaethol, ymateb i'r argyfwng hinsawdd, a gweithio tuag at gyflawni cynllun Cymru Sero Net.

4. Pwysleisiodd y Gweinidog fod y setliad yn cynnwys cyllid ar gyfer codiadau cyflog, yn benodol cyflogau athrawon, gan ddweud wrth yr aelodau na fyddai unrhyw gyllid pellach ar gael ar gyfer codi cyflogau llywodraeth leol ac athrawon, ac y dylid cyllido codiadau cyflog i athrawon o gyllidebau awdurdodau lleol, yng ngoleuni'r setliad hwn.

5. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau fod opsiynau posibl ar gyfer cynyddu cyllid ymhellach ar gyfer 2021-22 yn cael eu hystyried, ond y disgwylir i setliad terfynol 2022-23 fod yr un peth â'r setliad dros dro. Nododd y Gweinidog gyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf bod cyllid ychwanegol ar gael – £70m o gyllid cyfalaf cyffredinol, £46m ar gyfer cronfa galedi, a £21.4m tuag at y gost o adfer o lifogydd 2020.

6. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau, er gwaethaf cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU y byddai'r £175m ychwanegol yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun i bobl sy'n byw mewn tai ym mandiau treth gyngor A i D, mewn gwirionedd byddai hyn yn cael ei wrthbwyso gan symiau canlyniadol negyddol tebyg.

7. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad i'r grŵp ar hynt y gwaith o ddiwygio'r dreth gyngor, gan nodi'r bwriad i ymgynghori ar y cynlluniau a fyddai'n cynnwys ailbrisio ac adolygu gostyngiadau treth gyngor. Byddai cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor hefyd yn cael ei adolygu. Byddai diweddariad yn cael ei roi ddiwedd mis Mehefin. Ochr yn ochr â hyn, ychwanegodd y Gweinidog y byddai'r *Green Pig Campaign* yn ailddechrau.

8. Ar gyfer 2021-22, nododd y Gweinidog fod £19.3m wedi cael ei neilltuo i helpu gyda chostau colledion yn y dreth gyngor a gasglwyd.

9. Nododd y Gweinidog y bydd ymgynghoriad ffurfiol ar ardoll dwristiaeth yn cael ei gynnal yn yr hydref, gyda gweithdai cynllunio yn cael eu cynnal i ymgysylltu â phartneriaid yn y sector twristiaeth.

10. Diolchodd y Cyng. Morgan, y Cyng. Clement-Williams, y Cyng. Pritchard, y Cyng. Siencyn a'r Cyng. Davies i'r Gweinidog am y setliad dros dro, er i rai gydnabod y byddai Blynyddoedd 2 a 3 yn flynyddoedd llym.

11. Cododd y Cyng. Pritchard, a'r Cyng. Davies bryderon ynglŷn â'r ardoll dwristiaeth gan ddweud y byddai'n rhaid camu'n ofalus wrth ei gweithredu, ac y dylai disgresiwn gael ei roi i awdurdodau lleol benderfynu a fyddai ardoll yn cael ei chodi ai peidio. Cadarnhaodd y Gweinidog mai dyna'r hyn fyddai'n digwydd. Dywedodd y Cyng. Siencyn y byddai angen trafodaeth fanwl bellach ar yr agweddau gweithredol, ond croesawodd y cynigion oherwydd effeithiau twristiaeth ar ei ardal.

12. Roedd yr holl Gynghorwyr yn awyddus i'r Gweinidog ddarparu mwy o eglurder ynghylch y cyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r cyllid tuag at gostau byw gan Lywodraeth y DU. Amlinellodd y Gweinidog fod y trafodaethau cychwynnol a gynhaliwyd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi yn cadarnhau ei fod yn gyllid newydd, ond roedd gwybodaeth a ddarparwyd ers hynny'n dangos y byddai'r cyllid yn gyllid a fyddai'n cael ei ailgylchu o danwario mewn mannau eraill yn adrannau'r llywodraeth, ac na fyddai'n gyllid ychwanegol mewn gwirionedd. Mynegodd y Cyng. Clement-Williams ei phryder ynghylch effeithiau'r cynnydd mewn costau byw, gan awgrymu y dylai'r aelodau lobïo San Steffan i ofyn am gael mwy o gymorth.

13. Nododd y Gweinidog fod gan Gymru, yn wahanol i Loegr, Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol, gan ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai roi mwyn o arian ym mhocedi pobl. Er bod opsiynau'n parhau i gael eu hystyried, awgrymodd y Gweinidog ei bod yn debygol y byddai cronfa ddisgresiynol i gyd-fynd ag unrhyw gynllun costau byw a fyddai'n cael ei weithredu.

**Eitem 4: Diweddariad gan CLlLC ar faterion cyllid llywodraeth leol**

14. Gofynnod y Gweinidog a hoffai rhywun arall roi diweddariad Clic ar faterion ariannu, yn absenoldeb y Cyng. Hunt. Ymatebodd Dr Llewelyn drwy ddeud bod y rhan fwyaf o bwyntiau yr oedd wedi bwriadu eu codi eisoes wedi cael sylw.

**Eitem 5: Rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu**

15. Cyflwynodd y Gweinidog swyddogion Llywodraeth Cymru i gyflwyno Papur 2.

16. Amlinellodd Judith Cole y rhaglen waith wedi ei rhannu'n faterion tymor byr a materion mwy strategol, gyda'r rhain yn debygol o fod yn weithredol am gyfnod hirach na blwyddyn. Nododd y byddai'r ffocws tymor byr ar setiau data megis y rheini yr oedd y pandemig wedi effeithio arnynt, prydau ysgol am ddim, data twristiaeth, a'r Cyfrifiad. Byddai'r maes strategol yn canolbwyntio ar faterion mwy tymor hir megis ymchwilio i bwysoliadau dangosyddion, ac effeithiau materion polisi eraill megis diwygio'r dreth gyngor.

17. Cododd y Cyng. Siencyn y mater bod ei gyngor hefyd yn ystyried y data twristiaeth a gasglwyd gan y cyngor hwnnw, gan awgrymu nad oedd hyn bellach yn gyfredol, ac nad oedd yn gydnaws â datblygu cynlluniau ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, ac y byddai'n croesawu'r cyfle i gydweithio ar y data a gasglwyd.

18. Cytunodd y Cyng. Pritchard, y Cyng. Siencyn a'r Cyng. Clement-Williams y byddent yn croesawu cynnal adolygiad penodol o'r fformiwla gyllido gan nad yw rhai o'r data wedi cael eu diweddaru am 20 mlynedd fel y cyfrifiad. Fe wnaethant awgrymu y dylid rhannu'r fformiwla, gan edrych ar feysydd penodol megis ysgolion yn gyntaf. Fe wnaethant nodi y gallai'r canlyniadau posibl wneud newidiadau sylweddol i ddyraniadau'r setliad, ac os oedd awdurdodau lleol yn anhapus gyda'r canlyniadau, gallent bob amser ddychwelyd at y fformiwla bresennol.

19. Nododd Judith Cole, fod y gwaith o ddiweddaru data ar ôl y Cyfrifiad diweddaraf wedi cael ei rhoi i'r Is-grŵp Dosbarthu, ond oherwydd y cyd-destun ariannol ar y pryd, bod yr aelodau wedi argymell peidio â diweddaru'r data. Ychwanegodd fod yr Is-grŵp Dosbarthu yn ymchwilio i elfennau addysg a gwasanaethau cymdeithasol y fformiwla, ond bod y gwaith hwn wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig.

20. Awgrymodd y Gweinidog y gallai swyddogion Llywodraeth Cymru ddarparu papur ar y fformiwla yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp Cyllid, gyda chyfraniad gan aelod o'r Is-grŵp Dosbarthu ar ei sylwadau o ran cywirdeb ac amseroldeb y data. Gellid wedyn gomisiynu papur ar yr opsiynau ar gyfer gwneud gwaith pellach.

**Cam gweithredu: Swyddogion i ddarparu papur ar ddata'r fformiwla i'r cyfarfod nesaf, gan wahodd aelod o'r Is-grŵp Dosbarthu i fod yn bresennol.**

### Eitem 6: Diweddariad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

21. Rhoddodd Peter Curran ymddiheuriadau ar ran Alun Michaels. Rhoddodd ddiweddariad ar y praeseptau a gynigiwyd gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gan nodi bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref ar gyfer yr ardoll brentisiaethau, ond bod hyn yn parhau'n is na chostau Awdurdodau'r Heddlu.

22. Holodd y Gweinidog am effeithiau diddymu’r cyllid cyfalaf gan y Swyddfa Gartref. Atebodd Peter Curran drwy ychwanegu bod hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio refeniw i gyllido prosiectau cyfalaf neu drwy fenthyg drwy’r bwrdd benthyciadau gwaith cyhoeddus.

**Eitem 7: Unrhyw fater arall**

23. Dywedodd Dr Llewelyn fod pleidlais Unite ar ddyfarniadau cyflog wedi cau ar 17 Chwefror. Nododd mai 3.2% oedd y cynnydd cyfartalog mewn treth gyngor, a bod yr ystod gyffredinol rhwng 3-4%.

24. Nododd y Cyng. Pritchard nad oedd penderfyniad wedi ei wneud eto ar y dyfarniad cyflog blynyddol ar gyfer 2021-2022. Gofynnodd a fyddai disgwyl i’r cynghorau gyllido codiadau cyflog ar gyfer staff nad oeddent yn staff addysgu. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai angen i’r cynnydd yn y setliad ac adnoddau’r awdurdodau eu hunain dalu pob codiad mewn cyflogau.

25. Rhybuddiodd y Cyng. Morgan fod angen bod yn ofalus ynglŷn â pha wybodaeth am gyflogau sydd ar gael i’r cyhoedd, gan y byddai dangos bod cyllid wedi cael ei neilltuo ar gyfer dyfarniadau cyflog yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer negodiadau, a bod y Gweinidog wedi derbyn yn y gorffennol bod hynny’n rhoi pwysau ar awdurdodau lleol.

26. Fe wnaeth y Gweinidog gloi’r cyfarfod drwy ddweud mai dyma’r tro olaf y byddai’r Is-grŵp Cyllid yn cyfarfod cyn etholiadau’r cynghorau ym mis Mai. Diolchodd i bawb am eu cyfraniadau i’r grŵp hwn a grwpiau eraill, gan ddymuno’n dda i bawb.

**Diwedd**